**Craffu ar gynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd**

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith –2023**

---

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Ddatganiad Terfynol y Gyllideb Garbon Gyntaf a Tharged Interim 2020 a gyflwynwyd i Senedd Cymru, a elwir hefyd yn Ddatganiad cyntaf o Gynnydd. Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y cynnydd tuag at gyflawni Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25) (Cymru Sero Net). Mae'r Datganiad a'r Cynllun yn gynllun ac yn asesiad Cymru gyfan yn hytrach na fy mhortffolio i yn unig.

## 2.0 Datganiad o Gynnydd

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd ein datganiad terfynol ar gyfer y cyfnod cyllidebol carbon cyntaf yn cwmpasu 2016 i 2020 fel sy'n ofynnol o dan adran 41 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r targed interim cyntaf, 2020, fel sy'n ofynnol o dan adran 43 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Roedd y datganiad hefyd yn disgrifio:

- dull Llywodraeth Cymru o gyfrifo Cyfrif Allyriadau Net Cymru
- ein cyflawniad yn erbyn Cyllideb Garbon 1 a'n targed Interim 2020
- cynnydd ar draws sectorau
- ac asesiad o allyriadau defnydd Cymru

**Cyfrif Allyriadau Net Cymru**
Mae'r datganiad yn nodi'r camau a gymerwyd i gyfrifo Cyfrif Allyriadau Net Cymru ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf (CB1) a'r targed interim. Defnyddir Cyfrif Allyriadau Net Cymru er mwyn asesu a yw'r gyllideb garbon gyntaf wedi'i chyflawni.

Yn unol â darpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y bydd Unedau Di-Garbon yn cael eu credydu i Gyfrif Allyriadau Net Cymru. Golyga hyn na fydd dulliau gwrthbwyso rhyngwladol yn cael eu defnyddio i gydymffurfio â thargedau Cymru a'r gyllideb sy'n berthnasol i'r datganiad hwn. O ganlyniad, nid yw Cyfrif Allyriadau Net Cymru wedi newid o'r data a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Allyriadau Net Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud y penderfyniad hefyd i beidio â benthyg unrhyw gyllideb o Gyllideb Garbon 2 i ategu Cyllideb Garbon 1 ac maen nhw wedi cytuno i beidio â pharhau i ddwyn ymlaen unrhyw orberfformiad o Gyllideb Garbon 1 i Gyllideb Garbon 2, ac felly nid oes rhagor o addasiadau wedi'u gwneud.

**Cyflawni yn erbyn ein targedau a'n cyllidebau**

Mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni targed y gyllideb garbon gyntaf a'r targed interim. Y targed interim ar gyfer 2020 oedd gostyngiad o 27% (sy'n

cyfateb i gyfanswm allyriadau o 40,374 kt$CO_2$e yn 2020). Yn ôl ffigurau terfynol Cyfrif Allyriadau Net Cymru (NWEA) ar gyfer blwyddyn darged interim 2020, gwelwyd gostyngiad o 39.2% (cyfanswm yr allyriadau oedd 33,612 kt$CO_2$e). Felly, mae Targed Interim 2020 nid yn unig wedi'i gyrraedd, ond rhagorwyd ar y targed gwreiddiol gan 6,762 kt$CO_2$e. Gosododd y gyllideb garbon gyntaf darged ar gyfer gostyngiad cyfartalog o 23% (sy'n cyfateb i gyfanswm cyllideb o 212,933 kt$CO_2$e). Yn sgil Cyfrif Allyriadau net olaf Cymru ar gyfer CB1 gwelwyd gostyngiad o 27.8% yn ffigurau terfynol Cyfrif Allyriadau Net Cymru ar gyfer y gyllideb garbon gyntaf (cyfanswm defnydd y gyllideb o 199,718 kt$CO_2$e). Felly, mae targed y gyllideb garbon gyntaf wedi'i gyflawni hefyd gan ragori 13,216 kt$CO_2$e ar y targed gwreiddiol.

## Monitro ac Adrodd

Mae'r datganiad hefyd yn cysylltu'r gostyngiadau mewn allyriadau â'r ymrwymiadau a wnaed yn y cynllun Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (a elwir hefyd y Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf (LCDP1)). Er bod y Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr yn darparu data ar lefelau allyriadau, nid yw'n darparu gwybodaeth fanwl am y rhesymau dros gynnydd neu gwymp mewn allyriadau. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi fframwaith monitro perfformiad ar waith. Mae'r fframwaith yn rhoi cipolwg ar sut mae'r polisïau a nodir yn y cynllun wedi cyfrannu at gyrraedd y targedau a'r cyllidebau ac maen nhw'n cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad, sy'n ceisio olrhain cynnydd o'r lefel genedlaethol i'r lefel polisi. Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ei sylfaen dystiolaeth a'i nod yw gwella'r system dros amser. Bydd hon yn dasg barhaus gydol y daith sero net, a fydd bob amser yn gysylltiedig ag elfen o ansicrwydd. Er bod y fframwaith yn rhoi sylw i'r holl sectorau allyriadau, dylid nodi nad oes unrhyw ddangosydd meintiol yn addas ar gyfer rhai polisïau, neu nad oes modd cael gafael ar ddata i olrhain cynnydd mewn ffordd feintiol. Yn yr achosion hyn, defnyddir gwybodaeth ansoddol i ddarparu asesiad o gynnydd.

Trefnir fframweithiau'r dangosyddion mewn tair Haen. Yn gryno:

- Haen 1 – yn disgrifio newidiadau yn lefel allyriadau ar lefel sector;
- Haen 2 – yn disgrifio'r rhesymau pam mae allyriadau wedi newid; a
- Haen 3 - yn disgrifio i ba raddau y mae polisïau Llywodraeth Cymru wedi effeithio ar y newid.

Mae dangosyddion Haen 1 (sy'n cysylltu â'r rhestr allyriadau) yn dangos, **bod 5 sector (pŵer, trafnidiaeth, diwydiant, gwastraff a nwyon F) wedi gweld allyriadau'n gostwng yn sylweddol dros y cyfnod (sgôr gwyrdd),** mae 2 sector (adeiladau, amaethyddiaeth) wedi gweld newid mwy cyfyngedig mewn allyriadau dros y cyfnod (sgôr oren), ac mae'r sector Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF) wedi gweld gostyngiad sylweddol ym maint y ddalfa y mae'n ei darparu dros y cyfnod (sgôr coch). Dros y cyfnod, mae'r gostyngiadau hyn mewn allyriadau wedi'u sbarduno gan batrymau sy'n newid yng ngweithgareddau defnydd a chynhyrchu Cymru (wedi'u holrhain gan 57 o ddangosyddion Haen 2).

O'r gweithgareddau Haen 2 **mae 28 yn wyrdd**, gan gynnwys **cynnydd** mawr **yng nghyfran cynhyrchu trydan o ynni adnewyddadwy, gostyngiadau mawr yng nghyfran y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, a gostyngiad cadarn yn y defnydd o ynni trafnidiaeth a'r defnydd o ynni diwydiannol, er bod pandemig Covid yn 2020 wedi dylanwadu'n fawr ar newidiadau mewn trafnidiaeth. Pŵer (89%), gwastraff (75%) a'r Sector Cyhoeddus (75%)** oedd y sectorau â'r **cyfrannau uchaf o ddangosyddion Haen 2 sydd â sgôr gwyrdd.** Roedd 7 o'r dangosyddion gweithgaredd eraill yn goch, 11 yn oren, ac nid oedd modd graddio 11. **LULUCF (0%), Adeiladau (0%) ac Amaeth (17%)** oedd y sectorau â'r **cyfrannau isaf o ddangosyddion Haen 2 â sgôr gwyrdd.**

Mae'r dangosyddion Haen 3 yn asesu i ba raddau y mae polisïau Llywodraeth Cymru wedi'u cyflawni a'r graddau y maen nhw wedi dylanwadu ar leihau allyriadau. O'r 57 o ddangosyddion Haen 3, **mae 14 yn wyrdd (h.y. cyfeiriad dymunol wedi'i gyflawni) yn bennaf yn y sectorau Pŵer (6 gwyrdd), Adeiladau (3 gwyrdd), Gwastraff (2 gwyrdd) a Diwydiant (2 wyrdd)**. Hefyd, mae 2 ddangosydd Haen 3 **â sgôr coch yn digwydd yn y sectorau Gwastraff a Phŵer, lle nad yw'r cyfeiriad dymunol wedi'i gyflawni**.

Mae'r system Monitro, Adrodd a Gwirio a gyflwynwyd yn y Gyllideb Garbon 1 yn parhau i gael ei datblygu i'n galluogi i asesu cynnydd yn y Gyllideb Garbon 2. Er enghraifft, **mae 40 o ddangosyddion Haen 3 nad ydynt wedi'u graddio, naill ai oherwydd nad oedd data ar gael, neu oherwydd nad oedd y cyfeiriad dymunol yn glir**.

**Allyriadau defnydd**

Roedd y Datganiad Terfynol yn cynnwys amcangyfrif o ôl troed allyriadau defnydd Cymru, sy'n ein galluogi i ystyried yr allyriadau a gynhyrchir gan ein defnydd o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn y DU a thramor. Mae'r asesiad yn dangos bod yr amcangyfrif o allyriadau defnydd wedi amrywio ychydig gan ddangos cynnydd bach (o tua 2%) yn ystod cyfnod y gyllideb lle mae data ar gael (y blynyddoedd 2016 i 2019). Byddwn yn cyhoeddi diweddariad i atodiad A eleni ar ôl i ddata 2020 ddod i law gan Brifysgol Leeds. **Ar y cyfan, ers 2001 (y flwyddyn gyntaf o ddata sydd ar gael), mae amcangyfrifon o allyriadau defnydd wedi dangos tuedd gyffredinol ar i lawr gan ostwng i oddeutu 27% o 49 i 36 Mt $CO_2$e.** Ystyrir mai'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo'r ôl troed yw'r gorau sydd ar gael ar hyn o bryd, fodd bynnag mae ganddi rai cyfyngiadau. Mae gan unrhyw fodel lefel o ansicrwydd cynhenid, y gellir ei phriodoli i amrywioldeb oddi mewn i baramedrau'r model a rhagdybiaethau a wnaed. Mae'n anoddach amcangyfrif allyriadau nwyon tŷ gwydr o gynnyrch sy'n tarddu o wledydd eraill o gymharu ag allyriadau sy'n cael eu hamcangyfrif ar sail diriogaethol.

## 3.0 Cymru Sero Net

Ar ddiwedd 2021 cyhoeddwyd Cymru Sero Net, ein cynllun lleihau allyriadau a oedd yn canolbwyntio ar sut y byddwn yn cyflawni ein hail gyllideb garbon (2021-2025). Mae'r cynllun yn edrych y tu hwnt i Gyllideb Garbon 2 hefyd er mwyn dechrau gosod sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 a thu hwnt. Mae'r Cynllun yn cynnwys 123 o bolisïau a chynigion.

Yn dilyn arferion gorau ehangach, yng Nghymru mae gennym system gyllideb garbon pum mlynedd, gan gydnabod amrywioldeb allyriadau o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn cyhoeddi ein Datganiad deddfwriaethol terfynol o Gynnydd ar gyfer Cymru Sero Net tan 2027 (gan gydnabod yr oedi o 2 flynedd mewn data allyriadau).

Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r broses gyflawni a helpu i sbarduno camau gweithredu, rydym wedi sefydlu llywodraethu mewnol i ddatblygu a darparu Cymru Sero Net sy'n cynnwys y canlynol:

- Cabinet trawslywodraethol wedi'i gefnogi gan weinyddiaeth Newid Hinsawdd benodedig, a fydd yn dod â'r meysydd polisi pwysig ynghyd er mwyn helpu Cymru i gyrraedd ei tharged, sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, o gyrraedd sero net erbyn 2050;
- Bwrdd Portffolio wedi'i gadeirio gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Newid Hinsawdd gyda swyddogion arweiniol ar gyfer pob sector allyriadau a maes polisi trawsbynciol;

Byddwn yn olrhain cynnydd cyffredinol tuag at ein targedau a'n cyllidebau yn flynyddol hefyd fel rhan o'n cyfres ehangach o ddangosyddion Llesiant gan fod gennym ddangosydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae adnoddau wedi canolbwyntio'n briodol ar gyflawni ein gofynion deddfwriaethol i gyflwyno'r Datganiad Cyntaf o Gynnydd ym mis Rhagfyr y llynedd (3 mis yn ôl) ar ôl derbyn y data terfynol ym mis Mehefin 2021, a oedd yn golygu y gallem gwblhau'r fframwaith dangosyddion. Mae'r fframwaith hwn yn ddarn sylweddol o waith ac yn gam mawr ymlaen o'n dull adrodd blaenorol ac mae'n dangos sut rydym yn gweithredu'n dryloyw ac yn agored. Drwy osod fframwaith mwy cadarn, rydym yn darparu enghraifft o safonau uwch a fydd, gobeithio, yn cael eu dilyn gan eraill.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar y gwaith o ddatblygu'r gyfres lawn nesaf o ddangosyddion, gan ystyried ein dysgu yn sgil datblygu ein cyfres gyntaf a cheisio gwella ein data a lleihau cyfyngiadau. Byddwn yn parhau i gryfhau ein dealltwriaeth o effaith polisi hinsawdd hefyd drwy ein prosesau integredig mewnol ar gyfer cynnal asesiadau o effaith. Fel yr amlygwyd eisoes yn Sero Net Cymru, ni fydd gennym ddata allyriadau ar gyfer blwyddyn gyntaf Cyllideb Garbon 2 (2021) tan fis Mehefin eleni gan nad ydym yn derbyn data allyriadau'r Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr tan 18 mis wedi i'r flwyddyn ddod i ben. Mae'r data hwn yn rhan greiddiol o'n fframwaith monitro ar gyfer Cyllideb Garbon 2 a bydd yn golygu y gallwn ddatblygu ein cyfres nesaf o ddangosyddion.

Rydym yn parhau i fonitro'r broses o gyflawni Cymru Sero Net mewn modd ansoddol hefyd drwy'r Bwrdd Portffolio Newid Hinsawdd. Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o graffu ar y Pwyllgor ceir crynodeb isod yn yr Atodiad, sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn pob un o'r polisïau a'r cynigion a ddisgrifir yn Sero Net Cymru.

**Atodiad**

**Polisïau**

| | Polisi | Statws |
|---|---|---|
| 1 | Pontio teg | Cyhoeddwyd Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru: Galwad am Dystiolaeth ym mis Rhagfyr 2022, ac mae ar agor ar hyn o bryd. |
| 2 | Yr Argyfwng Natur | Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) yn cael ei ddarparu drwy fentrau fel y Rhaglen Rhwydweithiau Natur 3 blynedd, Natur am byth a phrosiectau LIFE. Bydd NRAP yn cael ei ddiweddaru unwaith y bydd fframwaith a thargedau bioamrywiaeth byd-eang wedi'u cytuno yn COP 15. Rhaglen Rhwydweithiau Natur |
| 3 | Y Cynllun Aer Glân | Mae ein Cynllun Aer Glân i Gymru yn cael ei gyflawni a'r bwriad yw cyflwyno'r Bil Aer Glân i'r Senedd ym mis Mawrth 2023 |
| 4 | Meithrin Gallu i Wrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd | Cyhoeddwyd Adroddiad Cynnydd ar gyfer Addasu ym mis Rhagfyr 2022 ac mae'n adrodd ar gynnydd yn erbyn ein cynllun addasu 5-mlynedd presennol cenedlaethol ar gyfer newid hinsawdd, Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd. |
| 5 | Economi Gylchol | Mae ein Strategaeth Economi Gylchol yn cael ei gweithredu |
| 6 | Polisi Cynllunio | Mae diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn cael eu gwneud yn gymharol aml, sy'n berthnasol i hyrwyddo sero net a bydd cynnal polisi cynllunio cyfredol yn cyfrannu at wireddu dyheadau Sero Net ehangach y Llywodraeth ac yn helpu i'w cyflawni. |
| 7 | Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol | Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cael eu galluogi gan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, dyma ragor o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/fframweithiau-economaidd-rhanbarthol |
| 8 | Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i ddiweddaru | Drwy gyflwyno'r Gyllideb amlflwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, fe wnaethom gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd a chynnal asesiadau o effaith carbon ar gynlluniau cyfalaf. Hefyd camau a gymerir i ariannu elfennau o Sero Net Cymru. Gan adeiladu ar y gwaith sylweddol hwn, fe wnaethom gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2023-24 yn amlinellu'r cynnydd a'r camau nesaf. https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru#id_2022i2023 |
| 9 | Strategaeth Buddsoddi - mewn Seilwaith newydd | Drwy gyflwyno'r Gyllideb amlflwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd a chynnal asesiadau o effaith carbon ar gynlluniau cyfalaf. Cymerwyd camau hefyd i ariannu elfennau o Sero Net Cymru. Gan adeiladu ar y gwaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | sylweddol hwn, fe wnaethom gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2023-24 yn amlinellu'r cynnydd a'r camau nesaf. https://www.gov.wales/welsh-government-budgets#id_2022to2023: https://www.llyw.cymru/81bn-i-gefnogi-seilwaith-gwyrdd |
| 10 | Prisio Carbon | Mae Ymgynghoriad ledled y DU wedi cael ei ddatblygu, ei gyflawni a'i gwblhau mewn pryd. Mae disgwyl i Ymateb sylweddol y Llywodraeth gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023 ac mae'n cynnwys cadarnhad o'r dull o osod y cynllun ar lwybr cyson sero net. Mae gwaith dadansoddi helaeth wedi cael ei wneud i nodi effaith debygol Cymru yng nghynllun y DU. https://www.gov.uk/government/consultations/developing-the-uk-emissions-trading-scheme-uk-ets |
| 11 | Cynllun Gweithredu Sgiliau | Bwriad i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ym mis Chwefror 2023 |
| 12 | Arloesedd ar gyfer economi sero net | Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Arloesi newydd a fydd yn cael ei lansio ar gyfer ymgynghoriad ym mis Medi 2022. Bydd mecanweithiau cymorth newydd yn nodwedd allweddol o hyn, a'r cynllun gweithredu dilynol. |
| 13 | Strategaeth Ddigidol | Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yn cefnogi'r broses o ddarparu Strategaeth Ddigidol i Gymru. Fe wnaeth y CDPS gynnal prosiect ymchwil darganfod Technoleg Sero Net 12 wythnos, yn edrych ar sut gallai technoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus helpu Cymru i leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr i sero erbyn 2050. Drwy gyfweliadau ac arolygon uniongyrchol, aeth y tîm darganfod ati i gasglu tystiolaeth gan bobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus ledled Cymru a nodwyd 6 o argymhellion ar sut y gallai'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn y sector cyhoeddus helpu Cymru i gyrraedd ei nodau hinsawdd. Mae'r CDPS wedi rhannu canfyddiadau'r ymarfer darganfod gyda rhanddeiliaid ac yn trafod y ffordd orau o symud y gwaith hwn yn ei flaen gyda nhw. |
| 14 | Camau gweithredu rhyngwladol | Mae Cymru yn cynnal presenoldeb rhyngwladol drwy rwydweithiau allweddol e.e. drwy fod yn aelod o grŵp Llywio Cynghrair Dan2 a thrwy bresenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol allweddol fel COP27 a COP15. Mae Cymru yn cyfrannu at y Future Fund Climate Group hefyd. |
| 15 | Cyhoeddi'r Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Cyhoeddwyd ein cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer Sero Net ym mis Mehefin 2022 |
| 16 | Ymgynghori ynghylch Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Cyhoeddwyd ein Strategaeth ddrafft ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Daeth yr Ymgynghoriad i ben fis Rhagfyr 2022. |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Lleihau Allyriadau sy'n Deillio o Losgi Tanwyddau i Gynhyrchu Trydan | Nodi safbwynt polisi mewn Datganiad Llafar ym mis Hydref 2022. Mae Datganiad o Safbwynt Polisi ac ymateb y Llywodraeth i'r Cais am Dystiolaeth ar Barodrwydd i Ddatgarboneiddio yn cael eu paratoi i'w cyhoeddi. |
| 18 | Fframweithiau Trwyddedu a Chynllunio i atal gweithgarwch echdynnu tanwyddau ffosil | Mae'r polisïau Glo a Phetrolewm wedi’u cyhoeddi ac mae systemau trwyddedu priodol ar waith er mwyn sicrhau canlyniadau polisi. Mae polisi Petrolewm wedi llywio nifer o benderfyniadau trwyddedu eisoes. Bydd polisi glo yn cael ei gymhwyso yn ystod 2023/24 pe bai ceisiadau trwyddedu a chynllunio a ragwelir yn symud ymlaen drwy eu cyfundrefnau perthnasol. |
| 19 | Lleihau cynnydd mewn allyriadau yn sgil ynni newydd o orsafoedd gwastraff yng Nghymru | Moratoriwm ar raddfa fawr (>10MW) ar waith ym mis Mawrth 2021. |
| 20 | Lleihau risgiau ac Integreiddio Buddsoddiad yng Nghymru drwy Gynllunio Ynni | Penodi Energy System Catapult (ESC) yn Gynghorydd Technegol i oruchwylio'r rhaglen Cynllunio Ynni Ardal Leol (LAEP) a darparu'r cymorth technegol i ranbarth y Canolbarth. Sefydlu Fforwm Awdurdod Lleol i rannu dysgu a gwella dealltwriaeth.<br>Sefydlu Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar gyfer y rhaglen. Cymeradwyo timau adnoddau rhanbarthol.<br>penodi cyflenwyr i ddarparu cymorth technegol i Ranbarthau'r Gogledd, y De-orllewin a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. |
| 21 | Cynllunio ar gyfer darparu'r grid trydan a nwy sydd ei angen ar Gymru | Mae'r prosiect Grid Ynni’r Dyfodol i Gymru (FEW) ar fin cyrraedd ei gam olaf, gyda'r gwaith modelu wedi'i gwblhau. Mae Energy Systems Catapult yn mireinio'r gyfres o syniadau am system ynni’r dyfodol erbyn hyn a fydd yn cael eu cynhyrchu erbyn mis Ebrill 2023. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y gwaith o ddylunio'r atgyfnerthiadau i'r system trosglwyddo trydan er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hystyried yn gynnar. |
| 22 | Cynyddu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar dir drwy ein cyfundrefn gynllunio | Mae Dyfodol Cymru mewn grym ac yn cynnwys polisïau perthnasol sy'n ymwneud â phrosiectau ynni adnewyddadwy. |
| 23 | Caniatáu prosiectau storio | Deddfwriaeth mewn grym fel y gall Awdurdodau Lleol wneud penderfyniadau ar brosiectau storio ynni. |

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Tystiolaeth, cynllunio a thrwyddedu morol | Mae'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr (OREP) wedi'i gwneud yn barhaol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Adolygiad cynhwysfawr o Drwyddedu Morol ar y gweill |
| 25 | Arloesi ym maes technoleg ynni adnewyddadwy newydd | Mae'r arloesedd yn y maes ynni adnewyddadwy yn cynnwys prosiectau sy'n cael datblygu ar Hydrogen, Ynni Morol ac mewn rhannau o ynni adnewyddadwy cymunedol a chyhoeddus. Mae cyllid yn parhau i fod yn her allweddol o ystyried bod arloesedd wedi'i ariannu drwy ffynonellau ariannu'r UE yn y gorffennol. |
| 26 | Datblygiadau Ynni dan Berchnogaeth Leol | Mae Strategaethau Ynni Rhanbarthol wedi'u cytuno ym mhob un o 4 rhanbarth Cymru, gydag uchelgais ar gyfer ynni adnewyddadwy sydd dan berchnogaeth leol. Mae Cynlluniau Ynni Lleol yn cael eu datblygu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, er mwyn darparu tystiolaeth o ran maint y gweithredu lleol sydd ei angen. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth gyda datblygiadau yn y gymuned a'r sector cyhoeddus, ac yn rhoi cymorth i gymunedau archwilio'r posibilrwydd o gymryd cyfran mewn prosiectau sydd dan berchnogaeth fasnachol. <https://www.llyw.cymru/y-gwasanaeth-ynni-ar-gyfer-grwpiaur-sector-cyhoeddus-grwpiau-cymunedol>. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd Datblygwr Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru yn cael ei lansio erbyn mis Ebrill 2024, gan ddatblygu cyfres o brosiectau ar ystâd gyhoeddus Llywodraeth Cymru. |
| 27 | Sicrhau'r manteision mwyaf posibl o brosiectau seilwaith a weithredir yn fasnachol yng Nghymru | Mae'r Rhaglen Ynni Morol (MEP) yn bwrw ymlaen â gwaith er mwyn sicrhau buddion cadwyni cyflenwi o brosiectau gwynt arnofiol a sefydlog ar y môr (FLOW), drwy weithio ar y cyd â phorthladdoedd a datblygwyr. Er ei bod yn debygol y bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn porthladdoedd, mae UKG/BEIS wedi darparu cyllid ar gyfer FLOW ac mae ffynonellau cyllid eraill yn cael eu harchwilio hefyd. Y nod yw darparu atebion cynhwysfawr ar draws y gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, mae MEP yn archwilio mecanwaith cymorth refeniw posibl ar gyfer datblygwyr ffrwd lanw a thonnau i gyflymu'r defnydd a'r masnacheiddio o dechnolegau yn nyfroedd Cymru. Un o amodau dyfarnu yw dangos manteision economaidd-gymdeithasol i Gymru. Bydd hyn yn manteisio ar gyllid WEFO hefyd sydd eisoes wedi ymrwymo i barth arddangos Morlais. Cynigir y bydd yr Her Môr-lynnoedd Llanw (TLC) yn defnyddio dull gweithredu a arweinir gan Lywodraeth Cymru tuag at ddatblygu morlyn llanw yn Nyfroedd Cymru, gyda manyleb gofynion yn ystod y broses gaffael er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru. Bydd canllawiau ar brosiectau rhanberchnogaeth yn helpu i sefydlu dichonoldeb sefydliadau yng Nghymru sy'n cymryd rhanberchnogaeth mewn datblygiadau mawr ar y tir: bydd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) yn cefnogi cymunedau i ddeall y risgiau a'r buddion a gyflwynir gan hyn. Mae cyfleoedd cadwyn gyflenwi’n parhau'n sylweddol, ond eto bydd angen sicrhau y dangosir mai 'cynnwys lleol' yw'r opsiwn gorau yn economaidd, er enghraifft, oherwydd dwysedd carbon is a chostau cyffredinol is oherwydd agosrwydd at safleoedd defnyddio. |

| | | |
|---|---|---|
| 28 | Pennu cwmpas yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwres carbon isel | Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth ar y trywydd cywir. Mae adolygiad o lenyddiaeth wedi dod i ben ac mae'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gweill. Ein nod yw ymgynghori ar ddrafft yng ngwanwyn 2023 a chyhoeddi fersiwn derfynol cyn diwedd 2023, yn unol â'n hymrwymiad yn Sero Net Cymru. |
| 29 | Cynyddu'r defnydd o wres gwastraff a ffynonellau gwres carbon isel | Rydym wrthi'n caffael data gan BEIS. |
| 30 | Galluogi pobl i weithio gartref neu'n agos i'w cartref | Gwaith monitro lleoedd gwaith lleol i brofi dichonoldeb a'r awydd am hybiau lleol gweithio o bell yn parhau. Cyhoeddwyd y Strategaeth Gweithio o Bell ynghyd â chyfres o ddogfennau ategol. |
| 31 | Cynyddu cyfran dull teithio Teithio Llesol | Mae mapiau teithio llesol wedi'u cymeradwyo i bob awdurdod lleol yng Nghymru heblaw un. Mae gwaith peilot Cynllun Teithio Llesol Ysgolion a gwaith recriwtio ysgolion peilot wedi dechrau. Mae gwaith a gynhaliwyd gan Sustrans ar ran Llywodraeth Cymru i dreialu adnoddau cynllun newydd ar gyfer teithio llesol ysgolion yn mynd rhagddo'n dda. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dechrau proses dendro ar gyfer datblygu ymgyrch farchnata gymdeithasol er mwyn annog teithio llesol i'r ysgol. Mae gwaith ar y cyd wedi dechrau rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Abertawe a Llywodraeth Cymru i ddatblygu ffordd systematig o asesu potensial teithio llesol ar gyfer pob ysgol. Mae cyfnod ymgeisio Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 wedi agor a chynigir cyllid i unrhyw awdurdod lleol sydd wedi ymrwymo i wneud gwaith datblygu strydoedd ysgol. |
| 32 | Cynyddu cyfran dull teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus | Mae gwerthusiad strategol o'r ffordd y mae canlyniadau'r ymyriadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (NTDP) o gymharu â'r llwybr a nodir yn y strategaeth a Sero Net Cymru bellach wedi'i wneud. Mae ein timau Metro Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ddatblygu cyfres uchelgeisiol o brosiectau posibl sy'n barod i'w datblygu pan fydd cyllid yn caniatáu hynny. |
| 33 | Lleihau allyriadau o gludo llwythi a logisteg | Mae Cynllun Cludo Llwythi a Logisteg Cymru yn cael ei ddatblygu. |
| 34 | Cynllunio defnydd tir | Mae'r gwaith o ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol ar y gweill a gwneir diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn gymharol aml. Mae'r newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn berthnasol i hyrwyddo sero net a bydd cynnal polisi cynllunio cyfredol yn cyfrannu at wireddu dyheadau Sero Net y Llywodraeth, ac yn helpu i'w cyflawni. Mae'r Polisi Cynllunio'n cael ei baratoi ar gyfer rhanddeiliaid eraill gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| 35 | Cyflymu'r broses o fabwysiadu ceir a faniau di-allyriadau | Mae'r nifer sy'n defnyddio Cerbydau Di-allyriadau ychydig yn uwch na llwybr Cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Cysylltu â'r Adran Drafnidiaeth ar ddeddfwriaeth orfodi newydd ar Gerbydau Di-allyriadau. |
| 36 | Cynllunio ar gyfer seilwaith gwefru Cerbydau Trydan a buddsoddi ynddo | Rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae buddsoddiadau'n parhau, gan ddenu arian ychwanegol gan OZEV, mae'n anodd priodoli unrhyw ostyngiadau mewn allyriadau'n uniongyrchol i'r polisi hwn. |
| 37 | Fflyd bysiau di-allyriadau | Mae'r Achos Busnes Amlinellol strategol ar gyfer datgarboneiddio'r fflyd bysiau ar ffurf drafft terfynol bellach. Ochr yn ochr â'r achos busnes hwn, mae cynllun pontio ar gyfer fflyd a seilwaith sydd wedi'i gwblhau bellach. Bu'n rhaid gohirio'r broses gaffael gyntaf o fysiau trydan ar gyfer fflyd Traws Cymru a bydd yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd yn awr, felly bydd angen ailbroffilio cyllidebau. Bellach mae angen MA cyn diwedd mis Chwefror fel y gellir pontio'n ddidrafferth yng nghyfnod cyflwyno'r gwaith. |
| 38 | Pob tacsi a cherbyd hurio preifat i fod yn un di-allyriadau erbyn 2028 | Mae'r prosiect tacsis fflyd werdd yn parhau ac mae adborth yn cael ei gasglu er mwyn helpu i nodi'r hyn fydd yn rhwystro'r broses o bontio a ffyrdd o helpu i'w lleddfu. Mae Bil Tacsis wedi'i amserlennu ar hyn o bryd yn nes ymlaen yn ystod tymor y Senedd hon a bydd papur gwyn yn cael ei gyhoeddi'n fuan. |
| 39 | Datgarboneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd | Mae swyddogion yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Gweithredu Strategol Datgarboneiddio Tyniant ac maen nhw'n parhau i ddadlau o blaid trydaneiddio yn gynt yng Nghymru. Mae gwaith trydaneiddio Metro De Cymru ar y gweill. |
| 40 | Cerbydau Nwyddau Trwm (HGVs) di-allyriadau | Gwaith ymgysylltu yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi, gyda CALSTART a'r Iseldiroedd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth Byd-eang, a chyda diwydiant ar y seilwaith ategol ac mae rhywfaint o ddiddordeb yn y sector preifat mewn perthynas â threialon yr Adran Drafnidiaeth ar dechnoleg di-allyriadau. |
| 41 | Lleihau allyriadau o hedfan | Nid yw'r polisi hedfan wedi'i ddatganoli. Mae dadansoddiad yr Adran Drafnidiaeth yn rhagweld y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr hedfan yn parhau yn eithaf gwastad os yw'r tueddiadau cyfredol mewn technoleg a galw yn parhau. |
| 42 | Lleihau allyriadau o forgludo | Ymgysylltu'n gynnar â'r Adran Drafnidiaeth ar ymgynghoriad 'Llwybr i Sero'. Trafodaeth yn parhau mewn perthynas ag ymestyn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i gwmpasu morgludo. |
| 43 | Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) | Mae'r gwaith o gyflawni ORP bellach yn ei drydydd cam. Eleni rydym wedi adnewyddu'r rhaglen ac wedi symud tuag at fformiwla ariannu er mwyn galluogi pob landlord tai cymdeithasol i gael cymorth. Mae'r rhaglen yn parhau i dargedu tai cymdeithasol yn bennaf ond mae camau cychwynnol i gefnogi deiliadaethau eraill yn cael eu gwneud. (https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ol-osod-er-mwyn-optimeiddio) |

| | | |
|---|---|---|
| 44 | Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) – | Ar 31 Mawrth 2022, roedd 100% o'r holl anheddau tai cymdeithasol yn cydymffurfio â SATC cyfredol gan gynnwys methiannau derbyniol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar SATC 2023 newydd a dadansoddwyd y canlyniadau (https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023). Cynnig i'w fireinio a'i gytuno'n fuan. |
| 45 | Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu | Adolygiad 2022 o Rannau L, F ac O yn gyflawn. Darpariaethau preswyl cronfa fuddsoddi cymunedol Tachwedd 2022, darpariaethau annomestig cronfa fuddsoddi cymunedol Mawrth 2023. Mae'r gwaith ar raglen adolygu Rhan L 2025 wedi dechrau cael ei ddatblygu. |
| 46 | Bydd cartrefi cymdeithasol yn arwain drwy esiampl, drwy gael eu hadeiladu i safonau uwch na'r hyn a bennir yn Rhan L | Lansiwyd safon newydd o ran ansawdd tai "Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 - Mannau a Chartrefi Prydferth" (WDQR 2021) ym mis Gorffennaf 2021 a oedd yn gosod gofynion ansawdd newydd ar gyfer tai cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar hyblygrwydd, gofod a chynaliadwyedd. Mae WDQR2021 yn gosod gofynion ansawdd newydd ar gyfer tai cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar hyblygrwydd, gofod a chynaliadwyedd. Mae'n sicrhau y bydd tai cymdeithasol yn arwain y ffordd wrth leihau allyriadau carbon, a disgwylir i ddatblygwyr preifat adeiladu yn ôl yr un gofynion carbon isel erbyn 2025. Drwy WDQR 2021, mae'r sector landlordiaid cymdeithasol yn arwain y ffordd bellach o ran ei gwneud yn ofynnol i gartrefi newydd sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus fod o ansawdd uchel, yn brydferth ac yn gartrefi carbon isel. Nod y safonau hyn yw sicrhau'r canlyniadau cymunedol, economaidd a lles gorau posibl, a chefnogi cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. |
| 47 | Datblygu technegau adeiladu arloesol | Mae'r Rhaglen Tai Arloesol yn parhau i roi adborth a gwybodaeth am y technegau adeiladu arloesol a gefnogwyd gyda chyllid. Bydd yr ail adroddiad ar y gwersi adeiladu a ddysgwyd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2023 a bydd yn cyfrannu at y gofynion ansawdd o ran dylunio ar gyfer tai cymdeithasol newydd. Bydd WDQR 2021 yn cael ei adolygu yn 2023, gyda safonau newydd terfynol yn 2023-24. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer ail gam y rhaglen Cartrefi o Bren Lleol ac mae cydweithwyr yn yr Adran Tai wedi bod yn rhan o'r gwaith o lywio'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren er mwyn sicrhau bod mwy o bren yn cael ei ddefnyddio wrth adeiladu tai cymdeithasol. |
| 48 | Cymell effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy ein cynllun Cymorth i Brynu - Cymru | Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ei bwriad i ymestyn y cynllun Cymorth i Brynu presennol yng Nghymru o 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2025. O 1 Ebrill ymlaen bydd angen i bob cartref sy'n cael ei werthu drwy'r cynllun gyrraedd EPC B o leiaf a bydd uchafswm y pris prynu yn codi o £250,000 i £300,000. Bydd y meini prawf newydd o EPC B a chynnydd yn uchafswm y pris prynu'n berthnasol i eiddo a brynwyd o 1 Ebrill ymlaen. Datblygwyd yr estyniad hwn gyda chefnogaeth Cyllid y DU, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr a Banc Datblygu Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 49 | Treialu Systemau Deallus, Hyblyg a Digidol | Drwy'r ORP, rydym yn buddsoddi mewn amrywiaeth o systemau a synwyryddion ynni deallus ac rydym wedi pennu safonau ar gyfer monitro amgylcheddol ac ynni i'w rhoi ar waith ar brosiectau fel rhan o'r rhaglen. |
| 50 | Datblygu ymyriadau newid ymddygiad ochr yn ochr â'n rhaglenni ehangach | Mae ein gwaith drwy ORP ac IHP yn hysbysu landlordiaid cymdeithasol ledled Cymru, pa gyfuniad o atebion sy'n perfformio orau o safbwynt ynni a pha rai sy'n gweithio orau i'r tenantiaid ac yna rhannu'r dysgu hwnnw ar draws y sector ac i adrannau eraill y Llywodraeth. Bydd adborth tenantiaid yn dechrau rhoi cipolwg i ni ar yr atebion sy'n rhoi'r canlyniadau gorau i denantiaid, y rhai sy'n gofyn am y newidiadau mwyaf i'r tenantiaid o ran ymddygiad a'r rhai yr oedd tenantiaid yn teimlo oedd yn arwain at ychydig o newid ymddygiad os o gwbl. |
| 51 | Sicrhau bod y Sector Gweithgynhyrchu'n Datgarboneiddio | Mae datgarboneiddio'n rhan fawr o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithgynhyrchu. Rydym wedi cwblhau arolwg o gwmnïau gweithgynhyrchu, ac mae'r canlyniadau'n cael eu hymgorffori yn y gwaith o ddiweddaru'r cynllun a fydd yn cael ei lansio ym mis Mai. Rydym wedi dechrau mapio'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd blaenoriaeth er mwyn nodi cyfleoedd i ganfod ffynonellau sy'n fwy lleol. |
| 52 | Mwy o mewn effeithlonrwydd adnoddau mewn diwydiant a busnes drwy reoleiddio a chyllid | Y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) - Mae crynodeb o'r ymgynghoriad a dyluniad terfynol y cynllun wedi'u cyhoeddi. Bydd y Cynllun yn cynyddu faint o becynnu sy'n cael ei ailgylchu, yn annog ail-ddefnyddio a lleihau pecynnu diangen.<br>Rydym wrthi'n gwneud diwygiadau i'r gwaith ailgylchu mewn Busnesau drwy ddatblygu rheoliadau, a fydd yn cynyddu ailgylchu bwyd, papur, cerdyn, cartonau a thecstilau ymhellach, ac mae'r ymgynghoriad terfynol ar y Cod Ymarfer, prosesau gorfodi a sancsiynau wedi'i gyhoeddi, a 15 Chwefror yw'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion.<br>Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i brif ffrydio cymorth i Fusnesau ledled Cymru er mwyn gwella eu heffeithlonrwydd o ran adnoddau trwy Busnes Cymru. |
| 53 | Rhoi cyfundrefn newydd ar waith ar gyfer Technegau Gorau Sydd ar Gael (BAT) sy'n rheoli llygredd ar gyfer diwydiant | Mae Pedair Gwlad y DU wedi cytuno ar broses ar gyfer datblygu Casgliadau BAT y DU. Yn ogystal, mae'r ddwy gyfran gyntaf (9 sector diwydiannol) wedi'u cytuno a'u cadarnhau drwy gyfrwng ein Crynodeb o'r Ymatebion ac ymateb y Llywodraeth i'n hymgynghoriad ar y cyd yn 2021. Bydd y cyntaf o'r sectorau hyn yn debygol o gael ei gwblhau a dod i rym ym mis Ionawr 2024 a disgwylir iddo gynnwys casgliadau safonol mewn perthynas â'r Economi Gylchol, Ymaddasu i Newid Hinsawdd a Lliniaru Newid yn yr Hinsawdd. |

| | | |
|---|---|---|
| 54 | Busnes Cymru | Mae gwasanaeth Busnes Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o gyngor a chymorth ar bolisïau ac arferion gwyrdd ledled Cymru. Mae Cynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau penodol ar gael i gefnogi busnesau sy'n gweithio tuag at greu busnes sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn wydn, sy'n gallu darparu cyngor amrywiol fel defnyddio llai o ddeunyddiau crai i helpu i leihau'r risg o brinder deunyddiau, ysgogi arloesedd a gwytnwch, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd. |
| 55 | Ardoll Newid Hinsawdd (CCL) a Chytundebau Newid Hinsawdd (CCA) - Llywodraeth y DU | Polisi Llywodraeth y DU (UKG) yw hwn. Yn Cymru Sero Net fe wnaethom alw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod busnesau a diwydiannau sydd yng Nghymru yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer unrhyw gynllun CCA yn y dyfodol y tu hwnt i Fawrth 2025. Rhwng Rhagfyr 2021 a Mawrth 2022, ymgynghorodd UKG ar ddyfodol y Cytundeb Newid yn yr Hinsawdd gan edrych ar hyd y cynllun; cymhwysedd; cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar dechnolegau effeithlonrwydd ynni; a thryloywder gweithredu. Rydym yn disgwyl am eu hymateb ac am yr wybodaeth ddiweddaraf. |
| 56 | Gwelliannau i'r Cynllun Cyfle Arbed Ynni (ESOS) | Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi symud ymlaen â hyn. Y dyddiad cau i gwmnïau cymwys i gwblhau cam tri ESOS yw 5 Rhagfyr 2023. |
| 57 | Adroddiadau Ynni a Charbon Symlach (SECR) | Mae Adroddiadau Ynni a Charbon Symlach (SECR) llywodraeth y DU yn y modd gweithredu. |
| 58 | Banc Datblygu Cymru (DBW) | Cylch gwaith Banc Datblygu Cymru yw cael Datgarboneiddio fel blaenoriaeth polisi gan fod y banc yn cefnogi busnesau i bontio tuag at sero net. Yn ystod 2022/23, bydd y banc yn datblygu cynlluniau datgarboneiddio cyllid busnes i gefnogi'r flaenoriaeth hon. |
| 59 | Cronfa Dyfodol yr Economi (EFF) | Mae Cronfa Dyfodol yr Economi Llywodraeth Cymru yn dwyn cynlluniau cyllid presennol ynghyd i ddull gweithredu cyson, gan symleiddio'r broses i fusnesau a chaniatáu i Lywodraeth Cymru fod yn hyblyg yn y ffordd y mae'n defnyddio'r adnoddau sydd ganddi i ddiwallu anghenion busnes, a chyflawni yn erbyn y pwyntiau a amlygwyd yn y Contract Economaidd a'r Galwadau i Weithredu. |
| 60 | Ffrydiau cyllido Llywodraeth y DU ar gyfer datgarboneiddio diwydiannol | Mae swyddogion yn cydweithio â UKG i fynd i'r afael â gofynion Cymru a hyrwyddo cyfleoedd cyllido i fusnesau a rhanddeiliaid. |
| 61 | Rheoliadau i leihau llygredd amaethyddol | Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau CoAP) CIF Ebrill 2021. Mae cyfnodau pontio’n berthnasol a bydd gofynion ychwanegol o Ionawr 2023 ac Ebrill 2023 ymlaen a byddant yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn Awst 2024. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd (yn dod i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ben ar 17 Chwefror) ar gynllun trwyddedu arfaethedig i gefnogi'r broses o bontio i'r terfyn 170kg/N/ha o dail da byw tan 2025. Bydd Rheoliadau CoAP yn cael eu gorfodi gan CNC a thrwy drawsgydymffurfio, gan ddarparu gwybodaeth a allai ddarparu data y gellir ei ddefnyddio ar gyfer modelu'r gostyngiadau mewn allyriadau'n fwy cywir. |
| 62 | Glastir | Mae contractau Glastir Uwch, Tiroedd Comin ac Organig Glastir yn cael eu hadnewyddu neu'n cael eu hymestyn yn flynyddol, fel y bo'n briodol, tan 2023. |
| 63 | Grant Busnes Fferm (FBG) | Oherwydd lefel uchel o alw am eitemau penodol sydd ar gael drwy'r FBG, yn ogystal â materion cyflenwi (oherwydd cyfuniad o Covid-19 a Brexit), gall rhai deiliaid contract ei chael hi'n anodd prynu'r holl eitemau yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol fel y gellir talu am yr eitemau eraill sy'n cael eu prynu.<br>Ar gyfer Grant Busnes Fferm-Gorchuddio Iardiau (FBG-YC), oherwydd lefelau uchel o alw am ddeunyddiau a llafur i gwblhau prosiectau, heb sôn am oedi cyn cael Caniatâd Cynllunio a chymeradwyaeth i Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), gall rhai deiliaid contract ei chael hi'n anodd cwblhau'r prosiectau yn eu contractau mewn pryd i hawlio.<br>Ni fydd rhagor o rowndiau FBG neu FBG-YC yn cael eu cynnal ac maen nhw wedi cael eu disodli gan y Grantiau Bach - Effeithlonrwydd a Grantiau Bach - cynlluniau Effeithlonrwydd, yn y drefn honno. |
| 64 | Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG) (wedi'i ddisodli gan y Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau (NMIS) | Mae ceisiadau a dderbyniwyd drwy gyfnod ymgeisio diweddaraf NMIS yn cael eu gwerthuso. Gall ansefydlogrwydd y farchnad a chostau mewnbwn uchel (gan gynnwys costau cynyddol deunyddiau a chontractwyr a'r graddau y maen nhw ar gael) effeithio ar nifer y ceisiadau sy'n symud ymlaen. |
| 65 | Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (WAHWF) | Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn hyrwyddo sawl menter i wella iechyd a chynhyrchiant systemau cynhyrchu anifeiliaid. Byddai hyn, os nad yw'r cynhyrchiant cyffredinol yn cael ei gynyddu, yn lleihau ôl-troed carbon y sector (gan y bydd llai o anifeiliaid yn cynhyrchu'r un faint).<br>Dyma'r rai o 'r pwysicaf:<br>- Cynllunio Iechyd Anifeiliaid – prosiectau HerdAdvance a Stoc+ RDP – pan fydd data ar effaith ar gynhyrchiant ymyriadau milfeddygol ataliol ar gael, dylid trosi hyn i ganlyniadau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>- Dileu Dolur Rhydd Feirysol y Gwartheg (BVD) – mae sawl astudiaeth yn dangos, yn absenoldeb BVD, bod cynhyrchiant cyffredinol gwartheg yn cynyddu'n sylweddol. Byddem yn disgwyl budd oherwydd gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr er y byddai'n anodd ynysu a mesur hynny.<br>- Dileu'r Clafr - bydd ein contract tair blynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gyda Choleg Sir Gâr yn gweithio i ddileu'r clafr yng Nghymru gan gychwyn yn 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| 66 | Rhaglen Datblygu Cig Coch | Daw cyllid Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer y prosiect hwn i ben ym mis Mehefin 2023. Mae datblygiad genetig a gwerthoedd genetig bras (EBV) sector defaid Cymru wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth yn dilyn llwyddiant y rhaglen, gan arwain at lwyddo i ennill cytundeb newydd dwy flynedd fel rhan o raglen ehangach Cyswllt Ffermio, sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2023. |
| 67 | Rhaglen Gwella'r Sector Llaeth (DIP) | Mae'r Rhaglen, a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, yn rhaglen £6.5 miliwn am bum mlynedd (2014-2020) a ddarperir gan AHDB gyda chyllid ar gael tan fis Mehefin 2023. Mae sawl pecyn gwaith ychwanegol: (i) mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth a rhoi mwy o ddealltwriaeth ynghylch sut i gyflymu'r nifer sy'n manteisio ar y datblygiadau arloesol a'r arferion diweddaraf tuag at sero net; (ii) darparu data sylfaenol ar gyfer ffermydd llaeth Cymru drwy gyfrwng archwiliadau carbon a chynlluniau gweithredu; a, (iii) modelu fferm laeth sero net. |
| 68 | Cyswllt Ffermio (FC) | Mae dull gweithredu ymgyrchu thematig ar gyfer cyflawni wedi galluogi Cyswllt Ffermio i dargedu ymyriadau sy'n cefnogi'r agenda datgarboneiddio’n well. Dangosodd arolwg o 650 o fuddiolwyr Cyswllt Ffermio (a gynhaliwyd fel rhan o werthusiad annibynnol o Cyswllt Ffermio) fod 18% o'r ymatebwyr wedi mesur ôl troed carbon eu busnes; sylweddolodd yr ymatebwyr hyn bwysigrwydd gwybodaeth am ôl troed carbon ac roeddent yn awyddus i ddeall eu hôl troed amgylcheddol ymhellach. Mae'r Cyswllt Ffermio nesaf yn cynnwys cyngor â chymhorthdal sy'n ystyried perfformiad carbon y fferm yn benodol, gan gynnwys archwiliadau carbon, lefelau allyriadau a secwestriad a'r hyn y gellir ei wneud yn y busnes fferm i wella'r sefyllfa |
| 69 | Y Bil Amaethyddiaeth | Bydd y Bil Amaethyddiaeth yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno system newydd o gymorth i ffermydd. Mae'r Bil wedi’i gyflwyno gerbron y Senedd ac ar hyn o bryd mae yn y broses graffu. Cafodd amlinelliad o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022 ac mae proses bellach o gyd-ddylunio’n dod i ben ar hyn o bryd. Am ragor o wybodaeth gweler: https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw |
| 70 | Creu Coedwig Genedlaethol i Gymru | Rydym yn gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:<br>• Datblygu polisi model cyflawni (Ôl 2025)<br>• Mae cynllun cyflawni tair blynedd wedi’i lunio,<br>• Mae gweithgarwch mapio digidol rhyngweithiol wedi dechrau ac mae strategaeth hirdymor yn cael ei datblygu.<br>• Gwaith ar y gweill ar draws polisïau gyda'r sector Amaethyddiaeth, Datgarboneiddio, Iechyd, Twristiaeth, CNC a phartneriaid strategol.<br>• Proses ar gyfer Statws Coedwig Genedlaethol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.<br>• Cyhoeddi 3 choetir coffa.<br>• Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren ar ei hôl hi. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cynllun grant wrthi'n cael ei ddatblygu i ddarparu 100 o Goedwigoedd Bychain i'w lansio ym mis Ebrill 2023.<br>• Grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer model cyflawni hirdymor yn mynd rhagddo. |
| 71 | Cynllun Creu Coetir | Cynllun rheoli coetiroedd ar agor ar gyfer ceisiadau. Mae'r cynllun newydd i greu coetiroedd wedi'i lansio ochr yn ochr â chynllun perthi ac ymylon a chynllun grantiau bach a grant buddsoddi mewn coetir. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r cynllun rheoli integredig yn cwmpasu rhai elfennau o greu coetir (ar y fferm). Lansiwyd y Grant Buddsoddi mewn Coetir ym mis Mehefin 2022. https://www.llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir-gan-defnyddio-rpw-ar-lein-i-wneud-cais |
| 72 | Rhoi Rhaglen Adfer Mawndir ar waith | Mae map newydd o Fawndiroedd Cymru yn darparu amcangyfrifon o allyriadau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gysylltu hyn â'r gwaith adfer parhaus.<br>650ha o waith adfer wedi'i gyflawni yn 2020/21. 1,000ha o waith adfer wedi'i gyflawni yn 2021/22. |
| 73 | Lleihau'r gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi | Haneru lefel y gwastraff bwyd diangen:<br>• Hyd yma, yn y flwyddyn ariannol hon, mae FareShare Cymru wedi atal 636.7 tunnell o fwyd rhag mynd yn wastraff drwy ailddosbarthu'r bwyd bwytadwy sydd dros ben i'r rhai mewn angen. Maen nhw wedi ailddosbarthu 4,664 tunnell ers 2011 i dros 221 o sefydliadau ledled Cymru.<br>• Mae naw busnes o Gymru wedi ymrwymo i'r UK Food Waste Reduction Roadmap o dan Courtauld 2030 (C2030), sy'n helpu busnesau bwyd i leihau gwastraff bwyd ar draws y gadwyn gyflenwi.<br>• Rydym yn cefnogi'r ymgyrch Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff hefyd, sy'n addysgu ac yn cefnogi dinasyddion i leihau gwastraff bwyd gartref gan ddefnyddio gwyddor ymddygiadol. Mae ymgyrchoedd sy'n benodol i Gymru yn cael eu creu i dargedu'r rhai sydd angen cefnogaeth ac addysg ychwanegol i leihau gwastraff bwyd<br>• Gostwng y gwastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yng Nghymru i sero erbyn 2025 – a chyflwyno Rheoliadau Ailgylchu ar gyfer Busnesau, y Cyhoedd a'r Trydydd Sector yn gynt er mwyn gostwng ymhellach y bwyd, y papur, y cerdyn, y cartonau a'r tecstilau (gwastraff bioddiraddadwy) sy'n mynd i safleoedd tirlenwi – gweler Polisi 74.<br><br>Bydd cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer pecynnu'n cynyddu lefelau ailgylchu pecynnu, yn annog ail-ddefnyddio ac yn lleihau pecynnu diangen. Bydd y diwygiadau'n symud costau rheoli gwastraff pecynnu aelwydydd oddi wrth y cyhoedd i'r sector preifat ac yn creu'r cymhelliant i wella effeithlonrwydd adnoddau a gwella pecynnu fel y gellir ei ailgylchu. Mae'r Cynllun yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd ac mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | dyddiad targed ar gyfer y taliadau cyntaf a fydd yn cael eu casglu gan gynhyrchwyr wedi'i bennu ar gyfer 2024/25. |
| 74 | Cynyddu ailgylchu ymhellach | Mae dadansoddiadau cyfansoddiadol o wastraff a gwaith modelu i ddatblygu'r dystiolaeth i osod targedau ailgylchu trefol yn y dyfodol y tu hwnt i 70% yn 24/25 ar y trywydd iawn.<br>Ochr yn ochr â hyn, mae'r Rheoliadau Ailgylchu ar gyfer Busnesau, y Cyhoedd a'r Trydydd Sector yn cael eu datblygu a fydd yn cynyddu ymhellach lefelau ailgylchu bwyd, papur, cerdyn, cartonau a thecstilau, a thrwy hynny ddargyfeirio'r deunydd oddi wrth safleoedd tirlenwi. Mae ymgynghoriadau ar y Cod Ymarfer drafft a'r drefn orfodi arfaethedig ar gyfer y Rheoliadau'n cael eu cynnal rhwng 23 Tachwedd 2022 a 15 Chwefror 2023.<br>Cyhoeddwyd dyluniad terfynol ar gyfer cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd ym mis Ionawr 2023. Yng Nghymru, bydd y Cynllun yn cynnwys poteli gwydr a phlastig PET, caniau dur ac alwminiwm, yn amrywio o 50ml i 3lt mewn maint. Bydd y cynllun yn cynyddu cyfraddau ailgylchu'r deunyddiau hyn ymhellach, gan gynnwys drwy leihau nifer y cynwysyddion diodydd sy'n cael eu taflu fel ysbwriel yn dilyn llwyddiant cynlluniau o'r fath mewn gwledydd eraill. Y bwriad yw y bydd y cynllun yn mynd yn fyw ym mis Hydref 2025, gyda'r nod o gyrraedd targed cyfradd dychwelyd statudol o 90% ar ôl tair blynedd o weithredu'r cynllun.<br>Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar gynlluniau peilot i gasglu plastigion hyblyg, fel bagiau, pecynnau a deunydd lapio er mwyn ystyried sut gellid eu cynnwys mewn gwasanaethau casglu gwastraff cartrefi a busnesau. |
| 75 | Ymgyrch Bydd Wych | Cynhaliwyd gwaith modelu ar gyfer segmentu cynulleidfaoedd er mwyn llywio'r ymgyrchoedd newid ymddygiad, gyda cham nesaf ymgyrch Bydd Wych yn cael ei lansio ym mis Chwefror. Bydd yr ymgyrch nesaf hon yn canolbwyntio ar annog mwy o bobl i fynd i'r afael â'u gwastraff bwyd gan dynnu sylw at sut gellir ei ailgylchu a'i droi'n ynni i bweru cartrefi, offer ac ati. Bydd yn darparu syniadau a chyngor defnyddiol ar sut i oresgyn yr elfen annymunol o ailgylchu gwastraff bwyd hefyd, ac rydym yn gwybod o'r ymchwil fod hyn yn rhwystr i lawer o bobl. |
| 76 | Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddefnyddio'r Trywydd a'r Canllaw ar gyfer Adrodd | Adroddodd pob Awdurdod Lleol a'r rhan fwyaf o Gyrff Cyhoeddus Cymru ar eu hallyriadau carbon am y tro cyntaf eleni yn unol â'r Canllaw Adrodd.<br>Cyhoeddwyd cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio'r GIG yn 2021. Ym mis Ebrill 2022, cyflwynodd holl Sefydliadau'r GIG Gynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio fel rhan o'r broses Cynlluniau Tymor Canolig Interim (IMTP), mae gofyniad i adrodd ar allyriadau drwy'r Canllaw Sector Cyhoeddus ar gyfer Adrodd wedi'i gynnwys yn y Fframwaith Perfformiad IMTP (ac mae gwaith adrodd ansoddol ar y gweill).<br>Lansiwyd y Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach ym mis Mehefin 2022 a lansiwyd cynllun/trywydd Sero Net |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar gyfer Gofal Cymdeithasol ar ddechrau Gorffennaf 2022.<br>Mae Panel Strategaeth Hinsawdd ALl wedi mabwysiadu’r trywydd fel fframwaith strategol, a thrwy raglen gymorth CLlLC yn annog ALlau i wneud hynny hefyd. |
| 77 | Cynllun Llywodraeth Cymru i gyflawni sero net fel sefydliad | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun i gyflawni Sero Net [https://www.llyw.cymru/cynllun-strategol-sero-net-llywodraeth-cymru](https://www.llyw.cymru/cynllun-strategol-sero-net-llywodraeth-cymru) |
| 78 | Llywodraeth Cymru i gynnwys ymrwymiadau Cymru Sero Net yn ein llythyrau cylch gwaith a'n trefniadau noddi â chyrff cyhoeddus yng Nghymru | Mae templed llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru wedi'i ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at sero net.<br>Rydym yn gweithio tuag at ddiweddaru'r llythyr cylch gwaith a ddefnyddir ar gyfer Cyrff Cyhoeddus nad ydynt yn eiddo i/cael eu noddi gan Lywodraeth Cymru yn unigol (ad hoc) e.e. Banc Datblygu Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.<br>Ar gyfer GIG Cymru, rhoddwyd cyfarwyddyd ar yr ymrwymiad i Sero Net ac ar y gofyniad i lunio ac adrodd yn erbyn Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio drwy'r broses IMTP.  Ym mis Ebrill 2022, cyflwynodd holl Sefydliadau'r GIG Gynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio i Raglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd. |
| 79 | Gwneud Cynlluniau Lleihau Carbon yn rhan orfodol o dendrau ar gyfer contractau caffael cyhoeddus priodol a blaenoriaethu cynhyrchion y gellir eu hailgylchu'n llawn, y gellir eu defnyddio sawl gwaith neu y gellir eu haddasu at ddibenion gwahanol fel rhan o ddull | 1. Dim ond meini prawf cymhwyso cyflenwyr yw Cynlluniau Lleihau Carbon, ac felly maen nhw'n cadarnhau addasrwydd cyflenwyr i dendro ond nid ydynt yn darparu unrhyw fetrigau i asesu gostyngiadau mewn allyriadau cwmpas 3 sy'n deillio o gontractau'r sector cyhoeddus a ddylai ddod o ddangosyddion perfformiad allweddol a bennir mewn contractau<br>2. Mae Cynlluniau Lleihau Carbon (CRPs) yn orfodol ar gyfer contractau a fframweithiau Llywodraeth Cymru gwerth £5 miliwn a mwy o 1 Ebrill 2022 ymlaen. WPPN 06/21 Cyhoeddwyd Ystyried Cynlluniau Lleihau Carbon ym mis Medi 2021 i roi rhybudd ymlaen llaw i brynwyr. Mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cynlluniau Lleihau Carbon yn cael eu hystyried yn briodol ar gyfer y contractau a'r fframweithiau Llywodraeth Cymru y maen nhw'n cynghori adrannau Llywodraeth Cymru arnynt.<br>3. Gwelliant i gymal safonol 15 ar gyllid Grant. Mae elfen prynu nwyddau a gwasanaethau'n cael ei datblygu fel y gellir cydymffurfio â Nodiadau Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru (WPPNau) gan gynnwys WPPN 06/21 Ystyried Cynlluniau Lleihau Carbon. Mae angen rhagor o drafodaethau gyda'r tîm grantiau.<br>4. Mae templedi Asesiadau Risg Caffael Cynaliadwyedd (SRA) wedi'u diweddaru i gefnogi gweithredoedd economi gylchol mewn prosesau cynllunio caffael. Bydd y templedi diwygiedig ar gyfer Nwyddau a |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithredu mwy cylchol o ran gwastraff. | Gwasanaethau’n cael eu cyhoeddi ar Llyw.Cymru a'u hyrwyddo i Sector Cyhoeddus Cymru yn haf 2022.<br>Mae'r Asesiadau Risg yn ategu canllawiau caffael cynaliadwyedd eraill a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys "Canllawiau Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy" WRAP a gyhoeddwyd yng ngwanwyn 2021 a phecyn cymorth y Gymdeithas Llywodraeth Leol, “Sustainable procurement Delivering local economic, social and environmental priorities - A toolkit for commissioners, procurement practitioners and contract managers” a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Fel arweiniad, ni fydd yr adnoddau hyn yn cynhyrchu metrigau y gellir asesu'r broses o leihau allyriadau yn eu herbyn, ond dylent ddylanwadu ar gynllunio a pherfformiad contractau'r sector cyhoeddus a ddylai allu dangos gostyngiad mewn allyriadau.<br>5. Mae cynlluniau caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn adlewyrchu'r ymrwymiad fel y nodir yn Sero Net Cymru. Mae NWSSP wedi sefydlu cynllun gwaith ac yn gweithio ar y cyd â WRAP a WGES er mwyn sicrhau gostyngiad mewn allyriadau caffael ar draws yr ystâd. Mae cyllid wedi'i ddyrannu i adeiladu capasiti yn NWSSP i gyflymu'r gwaith hwn ar draws y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>Mae WRAP yn rhoi cymorth i sefydliadau'r sector cyhoeddus gyda chontractau unigol a pholisi caffael i fynd i'r afael â'r allyriadau carbon sydd wedi'u sefydlu a sicrhau y bydd caffael yn cefnogi'r broses o bontio tuag at economi gylchol. Mae hyn yn cynnwys datblygu a threialu adnoddau Adolygiad Aeddfedrwydd Caffael Cynaliadwy ar draws sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae canllawiau caffael cynaliadwy wedi'u cyhoeddi hefyd ar ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad ac ar gyfer categorïau caffael unigol: Canllawiau i'r sector cyhoeddus ar gaffael nwyddau cynaliadwy \| WRAP (wrapcymru.org.uk) |
| 80 | Dylai pob car a cherbyd nwyddau ysgafn newydd yn y sector cyhoeddus fod yn rhai allyriadau isel iawn/di-allyriadau erbyn 2025 a cherbydau nwyddau trwm erbyn 2030 | Mae adolygiadau Fflyd Technegol wedi eu cwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES), sydd bellach yn cefnogi'r gwaith o'u gweithredu. Gan fod argaeledd yn gwella, mae Effeithlonrwydd Adnoddau wedi cefnogi'r broses o bontio tuag at 40 o Gerbydau Trydan > 7.5 tunnell, c. 5% o fflyd casglu Awdurdodau Lleol.<br>Mae grantiau Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddiweddaru cerbydau trydan a seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Cymru (Newid yn yr Hinsawdd, Economi Gylchol, Trafnidiaeth ac ati)<br>Mae cynlluniau GIG Cymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad fel y nodir yn Sero Net Cymru.<br>Mae rhaglen gymorth CSP / CLlLC Awdurdodau Lleol yn gweithio tuag at yr ymrwymiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| 81 | Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddeall potensial atafaelu’r tir sy'n eiddo iddo | Mae hyn yn gysylltiedig â datblygu cynlluniau datgarboneiddio (Polisi 76) sy'n gwneud cynnydd da.<br>Mae cynlluniau GIG Cymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad fel y nodir yn Sero Net Cymru.<br>Ystadau Cymru (YC) i drafod â CNC ac adrodd yng nghyfarfod chwarterol y Bwrdd. Mae YC yn datblygu teclyn mapio hefyd gyda rheolwyr asedau a DataMap Cymru.<br>Ymrwymiad Cymru Sero Net i fapio pob daliad Llywodraeth Leol erbyn mis Ebrill 2022 (mewn cydweithrediad â CNC/LLC/CLlLC) i nodi mathau o dir a photensial secwestriad i ddatblygu cynlluniau i sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau ac adroddwyd arno yn CSP Chwefror a Mawrth, cwblhawyd yr adolygiad cychwynnol erbyn mis Ebrill, rhagor o waith wedi'i nodi.<br>Ymrwymiad Cymru Sero Net - i arweinwyr ystyried secwestriad fel pwrpas craidd dilys ar gyfer tir cyhoeddus. Mae rhaglen CLlLC yn cefnogi'r uchelgais hon drwy raglen ddatgarboneiddio ar y tir (LBD) a rhaglen waith arweinyddiaeth, gan weithio'n agos gyda pholisi Llywodraeth Cymru, a gydlynir gan dîm cynaliadwyedd llywodraeth leol Llywodraeth Cymru. Y ddau faes gwaith i adrodd erbyn yr hydref. |
| 82 | Mae GIG Cymru yn ymrwymedig i gyflawni'r uchelgais sero net cyfunol erbyn 2030 | Sefydlwyd y Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd, ynghyd â Bwrdd Rhaglen Genedlaethol a phum Bwrdd Prosiect Cenedlaethol ategol (Trafnidiaeth a Chaffael, Adeiladau, Cynllunio Ystadau a Defnydd Tir, Dull Gweithredu Gofal Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addasu) i sbarduno'r gwaith cyflenwi a sicrhau cynnydd yn erbyn cynlluniau. Cafodd cyllid refeniw ar gyfer y rhaglen ei sicrhau i gefnogi cynllun cyllido tair blynedd, gweithgarwch galluogi allweddol ac i feithrin gallu i ddatblygu capasiti yn NWSSP fel partner cyflawni allweddol ar draws GIG Cymru. Mae'r rownd gyntaf o gyllid ar gyfer Mentrau Llawr Gwlad ar draws Byrddau Iechyd wedi’i chwblhau. |
| 83 | Cynllun Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol ar y cyd rhwng GIG Cymru a Llywodraeth Leol | Mae Trywydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol wedi'i ddatblygu ar y cyd â GIG Cymru, Llywodraeth Leol a Rhanddeiliaid Gwasanaethau Cymdeithasol. Lansiwyd y Trywydd ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r gwaith wedi cynnwys gweithgarwch i amcangyfrif allyriadau yn y sector i ddarparu llinell sylfaen ddangosol. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r 15 menter o fewn eu terfynau amser sy'n cyd-fynd â Thrywydd y Sector Cyhoeddus. |
| 84 | Bydd Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi'r ymrwymiadau a wneir | Sefydlwyd y panel Strategaeth a'r panel hwn sy'n symud y gwaith yn ei flaen. Mae ymgysylltu ac uchelgais Awdurdodau Lleol yn uchel ac mae gan CLlLC raglen wedi'i sefydlu a'i datblygu sy'n dechrau cyflawni. Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf.<br>Bydd asesiad rheolaidd (blynyddol/18 mis) o gynlluniau gweithredu datgarboneiddio Llywodraeth Leol yn cael ei gynnal (cynhelir y nesaf yn y gwanwyn 2023), mae adolygiad o'r cynlluniau addasu’n cael ei gwmpasu, i gyd-fynd ag adolygiad cyffredinol y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd o'r sefyllfa yng Nghymru.<br>Sefydlu llif gwaith rhaglen CLlLC i gefnogi a chyflymu camau gweithredu a darparu cefnogaeth ymarferol i Awdurdodau Lleol er mwyn cyflymu newid, darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a rhannu dysgu yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | gan sefydliadau Llywodraeth Leol | meysydd canlynol: arweinyddiaeth (pob un o'r 22 arweinydd yn cyfarfod 28 Gorffennaf), caffael, trafnidiaeth (adeiladu ar adolygiadau fflyd WGES a chefnogi Awdurdodau Lleol i roi'r canfyddiadau ar waith), a dadansoddi mathau o dir a photensial secwestriad i gefnogi penderfyniadau Awdurdodau Lleol.<br>Mae'r gwaith blynyddol o fonitro allyriadau Llywodraeth Cymru yn allweddol i fonitro cynnydd. Gyda chefnogaeth y rhaglen Awdurdodau Lleol, cwblhaodd pob un o'r 22 awdurdod eu ffurflenni ar gyfer 2021. |

**Cynigion**

| | **Camau Gweithredu Arfaethedig** | **Statws** |
|---|---|---|
| 1 | Datblygu strategaeth hirdymor i hyrwyddo newid deietegol i ddiet glanach ac addas | Mae contract wedi'i ddyfarnu i Leeds Beckett i ymgymryd â darn o waith sy'n rhoi manylion ar fap neu fapiau o'r system fwyd i gyfleu'r amgylchedd cymhleth sy'n ysgogi dewisiadau deietegol, gan fynd ati'r un pryd i gefnogi swyddogion y Llywodraeth i ddeall sut mae'r system yn gweithio. Bydd grŵp llywio yn cefnogi'r gwaith hwn. |
| 2 | Sicrhau bod gweithgarwch Cynhyrchu Pŵer Thermol Newydd yn barod ar gyfer Sero Net | Ymateb y llywodraeth i'r Cais am Dystiolaeth ar Barodrwydd i Ddatgarboneiddio yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi. Rydym wedi dechrau cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i ganfod opsiynau manwl ar gyfer gweithredu polisïau. |
| 3 | Targedau wedi'u diweddaru ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy i gefnogi ein llwybr sero net | Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Adolygu targedau ynni adnewyddadwy Cymru ar 4 Ionawr 2023 a bydd ar agor am 12 wythnos. |
| 4 | Oedi ac adolygiad o'r cynigion ffyrdd presennol a methodoleg newydd ar gyfer asesu priodoldeb cynlluniau ffyrdd yn y dyfodol | Yn unol â Datganiad Ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar 30 Tachwedd 2022, rydym bellach yn ystyried ein hymateb llawn i'r Adolygiad Ffyrdd yng ngoleuni'r sefyllfa gyllidol ac economaidd sy'n dirywio y mae Llywodraeth y DU wedi ein rhoi ni ynddi. Byddwn yn amlinellu ein hymateb, ynghyd â'r cynlluniau hynny y byddwn yn eu cyflwyno, yn ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. |
| 5 | Cefnogi landlordiaid yn y Sector Rhentu Preifat (PRS) i wella effeithlonrwydd ynni | Mae camau wedi'u cymryd i gefnogi'r Sector Rhentu Preifat trwy ddefnyddio ORP i gefnogi Cynllun Prydlesu newydd yng Nghymru.<br>Fe wnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau drwy Ddatganiad Llafar ar fwriad i ddatblygu cynllun newydd yn seiliedig ar ardaloedd ar draws deiliadaethau tai. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Cefnogi'r sector cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr i wella effeithlonrwydd ynni a newid i wres carbon isel | Cydweithio â DBW ar gynllun peilot ar gyfer perchen-feddianwyr. Fe wnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau drwy Ddatganiad Llafar ar ddatblygu cynllun newydd yn seiliedig ar ardaloedd ar draws deiliadaethau. |
| 7 | Adfer cartrefi gwag a helpu perchnogion i ddechrau eu taith tuag at sero net | Mae cynllun newydd gwerth £50m wedi ei gyhoeddi er mwyn adfer mwy o gartrefi gwag. £50m i adfer cartrefi gwag \| LLYW. CYMRU |
| 8 | Effeithlonrwydd Dŵr a Labelu Dŵr | Mae Llywodraeth y DU wedi lansio ymgynghoriad ar gynlluniau i gyflwyno labelu gorfodol ar effeithlonrwydd dŵr ar draws holl wledydd y DU - Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig labelu cynhyrchion sy'n defnyddio dŵr (e.e. tapiau, cawodydd, toiledau, peiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi dillad). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022. |
| 9 | Datblygu Tystiolaeth a dadansoddiad o'r sector Diwydiant a Busnes er mwyn sicrhau bod modd lleihau allyriadau mewn ffordd gyflym a chost-effeithiol - Llywodraeth Cymru. | Rydym yn bwriadu casglu rhagor o dystiolaeth. Mae Miller Research yn cynnal dadansoddiad o allyriadau o ddiwydiant a busnes gan ddefnyddio data o'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol (NAEI) ac yn defnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC). Bydd ymchwil gan gwmni ymgynghori Miller yn cael ei ddefnyddio yn y model a ddefnyddir gan gydweithwyr 'Datgarboneiddio' er mwyn llywio llwybrau i gyrraedd targedau datgarboneiddio. Mae ymchwil Miller yn helpu gyda'r gwaith o lunio'r model datgarboneiddio canolog, ond mae hefyd yn darparu tystiolaeth i lywio uchelgeisiau a pholisïau datgarboneiddio. Mae'n gyfraniad tuag at lywio'r cynllun hinsawdd nesaf a'r modelu i ddangos y gall Llywodraeth Cymru wireddu targedau'r dyfodol. |
| 10 | Blaenoriaethu cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth ar gyfer swyddi glân a gwyrdd sy'n arwain at economi wedi'i datgarboneiddio | Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cytuno ar ddyraniadau cyfalaf Trafodiadau Ariannol newydd o £10 miliwn ar gyfer 2023/24 ar gyfer Banc Datblygu Cymru (DBW) i gefnogi cynlluniau cyllid busnes arfaethedig DBW ar gyfer datgarboneiddio. |
| 11 | Datblygu Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer | Mae ymchwil i bennu ôl troed carbon y sector gweithgynhyrchu bwyd wedi cael ei gomisiynu. Mae adroddiad drafft wedi ei dderbyn, a bydd y camau nesaf ar gyfer datblygu'r cynllun yn cael eu penderfynu. |

| | | |
|---|---|---|
| | y Sector gweithgynhyrchu bwyd a diod | |
| 12 | Datgarboneiddio pysgota a chadwyn gyflenwi pysgod | Cyflawnwyd darn o waith cychwynnol i ganfod cwmpas allyriadau er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer sector pysgota Cymru ac mae adolygiad o lwybrau datgarboneiddio posibl ar y gweill ar lefel y DU. |
| 13 | Adolygu a datblygu Busnes Cymru | Cynhaliodd Busnes Cymru Ymgyrch y 'Weledigaeth Werdd' ym mis Mawrth 2022 ac ar hyn o bryd mae'n cynnig apwyntiadau un-i-un gyda busnesau i ddarparu cyngor arbenigol. Mae Cynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau Busnes Cymru yn annog busnesau i ymrwymo i'r 'Addewid Twf Gwyrdd'.<br>Mae ymgyrch barhaus wedi'i chynllunio ar gyfer 22/23. Mae gan Busnes Cymru fodiwl hyfforddi ar-lein ar gyfer busnesau ac mae'r modiwl wedi ei ddiweddaru o'r newydd yn 2022.<br>3900 o fusnesau yn mabwysiadu neu'n gwella Strategaethau Cynaliadwyedd Amgylcheddol erbyn diwedd Medi 2022. 3529 eisoes wedi cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2022 felly ar y trywydd iawn. |
| 14 | Adeiladu ar ein Heconomi Sylfaenol (ES) | Rydym yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'r Economi Sylfaenol yn sgil datgarboneiddio tai a thrafnidiaeth. Mae ffocws meysydd blaenoriaeth eraill (bwyd, iechyd a gofal cymdeithasol, caffael) ar gynyddu cyflenwadau lleol a lleihau cadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau datgarboneiddio a buddion cymdeithasol ehangach. Mae'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol 22/23 yn cynnwys cynllun Effeithlonrwydd Ynni/Datgarboneiddio gwerth £1.4 miliwn wedi'i anelu'n benodol at ddarparwyr cartrefi gofal preswyl. |
| 15 | Clystyrau Diwydiannol – newid tanwydd | Mae swyddogion yn cydweithio'n agos â chlystyrau Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) a HyNET ar ddull defnyddio ar gyfer cyfuno hydrogen a thanwydd, ac yn cydweithio'n uniongyrchol â Gweithredwyr Rhwydwaith Ardal a chyfleustodau ar uwchraddio prosesau dosbarthu a storio (Undeb y Prosiect). Mae Mentrau Ymchwil Busnesau Bach HyBRID a WBRID yn modelu cynlluniau pontio tanwydd hefyd. Dilyn trywydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar strategaeth Llwybr Hydrogen Cymru a'r broses o gyd-fynd â chynlluniau hydrogen Llywodraeth y DU a chynlluniau cymell cynhyrchu fector carbon isel eraill a dulliau diogelwch ynni wrth iddynt gael eu diffinio'n gliriach. |
| 16 | Ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei pholisïau i gefnogi newid tanwydd | Mae swyddogion yn cydweithio ag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â newid tanwydd a'u cynigion polisi sy'n esblygu. Mae swyddogion wedi tynnu sylw at nifer o ystyriaethau Cymreig ynghylch amseru a'r hyn sydd ar gael (ar raddfa) o danwyddau gwyrdd / amgen, ee hydrogen. Mae hyn yn cynnwys danfon i safleoedd gwasgaredig a chymunedau gwledig. |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Parhau i adeiladu ar ein sail dystiolaeth ar gyfer Dal, Defnyddio a Storio Carbon (CCUS) | Cyhoeddwyd dadansoddiad sensitifrwydd CCUS mewn perthynas â thrafnidiaeth a morgludo ym mis Mehefin 2022. Mae swyddogion yn ymgysylltu â'r diwydiant ynglŷn â chanfyddiadau'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn mireinio ein dealltwriaeth ac yn cynorthwyo ein trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y model busnes newydd y maen nhw'n ei baratoi |
| 18 | Clystyrau Diwydiannol - Dal, Defnydd a Storio Carbon (CCUS) | Mae'r cynnydd yn parhau. Mae Diwydiant Sero Net Cymru bellach wedi'i ymgorffori ac mae Prif Swyddog Gweithredol cyntaf y sefydliad, sef Ben Burggraaf, yn y swydd (Hydref 22). Bydd y sefydliad o aelodau hwn yn arwain ar lwybrau datgarboneiddio diwydiannol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar Glwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC), a bydd yn datblygu arbenigedd ledled Cymru maes o law. |
| 19 | Astudiaeth dichonoldeb cael gwared ar nwyon tŷ gwydr | Ar hyn o bryd, mae gwaith cwmpasu ar y gweill i'r ymchwil sy'n archwilio sut y gallai astudiaeth lywio Cyfrifiannell Cymru 2050 a safbwynt Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU |
| 20 | Cynllun Cyflenwi Eiddo | Rydym yn darparu nifer o brosiectau hunanadeiladu i safonau carbon sero net. Mae'r prosiect cyntaf (uned 50,000 troedfedd sgwâr yng Nglyn Ebwy) yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Datblygiad c.10,000 troedfedd sgwâr o unedau bach sydd wrthi'n cael ei adeiladu yn Stad Ddiwydiannol Treowain, Machynlleth. Mae prosiect peilot 32,000 troedfedd sgwâr wrthi'n cael ei adeiladu hefyd yn Cross Hands fel rhan o fenter ar y cyd â Chyngor Sir Gâr sy'n cynnwys tîm Adeiladau Gweithredol Prifysgol Abertawe. https://www.specific.eu.com/crosshands/?utm_sou |
| 21 | Cynllun Sgorio Effeithlonrwydd Ynni Eiddo (PEERS) | Mae ymarfer casglu gwybodaeth yn cael ei gynnal i sefydlu perfformiad ynni'r portffolio cyn datblygu amserlen o'r gwaith sydd i'w wneud er mwyn bodloni'r safonau newydd. Mae amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio eisoes wedi'u cwblhau. |
| 22 | Annog a chefnogi arloesedd ym maes Datgarboneiddio Diwydiannol | Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Arloesi newydd a fydd yn cael ei lansio ar gyfer ymgynghoriad ym mis Medi 2022. Bydd mecanweithiau cymorth newydd yn nodwedd allweddol o hyn, a'r cynllun gweithredu a ddaw yn sgil hynny. |
| 23 | Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) | Cafodd amlinelliad arfaethedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd y Bil Amaethyddiaeth ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Medi ac mae'n destun craffu ar hyn o bryd. Bydd y Bil Amaethyddiaeth yn rhoi'r pwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno system newydd o gymorth i ffermwyr yn unol â fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Cynhelir ymgynghoriad ar y cynllun arfaethedig terfynol yn 2023. |
| 24 | Gwella effeithlonrwydd adnoddau a | Fe wnaeth y Senedd basio bil a oedd yn gwahardd plastig untro ym mis Rhagfyr 2022 gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Bydd y gwaith o gychwyn y gwaharddiadau'n digwydd mewn dau gam, a bydd y |

| | | |
|---|---|---|
| | chylcholrwydd ar ffermydd | gwaharddiadau ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 yr Atodlen yn cael eu cyflwyno yn ystod hydref 2023. Bydd ail gam y gwaharddiadau, sy'n cynnwys plastigau ocso-ddiraddadwy, wedi cychwyn erbyn diwedd y tymor Senedd hwn. Yn ogystal, mae gwaith wedi'i gynllunio ymhlith swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb KT newydd yn cynnwys cymorth i fusnesau amaethyddol wella effeithlonrwydd adnoddau |
| 25 | Effeithlonrwydd Tanwydd (Llywodraeth Cymru) | Mae'r Cyswllt Ffermio nesaf yn cynnwys cymorth i fusnesau amaethyddol fel y gallant fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio technoleg fferm carbon isel a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffermydd. Mae hefyd yn cynnwys cyngor technegol â chymhorthdal ar effeithlonrwydd ynni a dŵr a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| 26 | Cefnogi arloesedd mewn technoleg ynni adnewyddadwy | Bydd yr offer a'r dechnoleg sy'n cael eu cefnogi drwy'r cynllun Grantiau Bach - Effeithlonrwydd yn cael eu hadolygu ar gyfer y cyfnod ymgeisio nesaf sy'n agor yn 2024. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys rhagor o eitemau a fydd yn cefnogi effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni. |
| 27 | Troi'n organig | Agorwyd cynllun troi'n organig ym mis Gorffennaf 2022. Mae’r ceisiadau wedi'u prosesu a chynigwyd 120 o gytundebau. Ar hyn o bryd, mae contractau'n cael eu derbyn a'u dyfarnu a bydd nifer terfynol y contractau a ddyfernir yn cael ei gadarnhau yn ddiweddarach yn 2023. |
| 28 | Ffermio manwl | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ymrwymiad clir i weld Cymru yn manteisio ar dechnoleg amaethyddiaeth fanwl er budd yr economi amaethyddol. Mae'r cynllun Cyswllt Ffermio nesaf yn cynnwys cyngor technegol â chymhorthdal ar dechnoleg amaethyddol. Mae'r categori wedi'i sefydlu i gefnogi busnesau fferm i gymell eu mabwysiadu ar y fferm er mwyn sicrhau cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. |
| 29 | Rhannu Tir | Cafodd amlinelliad arfaethedig o’r cynllun Ffermio Cynaliadwy ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd y Bil Amaethyddiaeth ei gyflwyno i'r Senedd ym mis Medi ac mae'n destun craffu ar hyn o bryd. Bydd y Bil Amaethyddiaeth yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno system newydd o gymorth i ffermwyr yn unol â fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Bydd ymgynghoriad ar y cynllun arfaethedig terfynol yn 2023 |
| 30 | Ystyried y potensial i gefnogi Garddwriaeth | Agorwyd dau gyfnod ymgeisio sy'n cefnogi mentrau garddwriaeth sy’n bodoli’n barod a rhai newydd ym misoedd Ebrill a Mai 2022 a bydd cyfnod ymgeisio pellach ar gyfer mentrau garddwriaeth newydd ym misoedd Ebrill a Mai 2023. Mae contract wedi'i ddyfarnu fel rhan o Raglen KT - Cymorth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio - a gynhelir rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025. Dyfarnwyd y contract i Lantra Cymru, a bydd y rhaglen yn cynorthwyo garddwriaethwyr masnachol i feithrin arloesedd, llwyddiant busnes ac i ffermio mewn ffordd fwy ecogyfeillgar. |

| | | |
|---|---|---|
| 31 | Denu buddsoddiad gan y sector preifat ar gyfer y gwaith i greu coetir | Cyflwynodd y gweithgor cyllid coetir argymhellion i Weinidogion ym mis Rhagfyr. Maen nhw bellach yn bwrw ymlaen â'r argymhellion drwy ymgynghori â'r gweithgor. |
| 32 | Cynllun Ffermio Cynaliadwy Newydd (elfen coetir) | Gweler prif gofnod Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Cynigion Amaethyddiaeth) |
| 33 | Helpu teuluoedd a chymunedau i blannu coed | Mae ail gam ymgyrch 'Fy Nghoeden, Ein Coedwig' bron wedi'i gwblhau. Bydd 295,000 o goed ar gael eleni drwy'r hybiau, drwy'r post neu'r drwy'r opsiwn "Plannwch goeden i mi'. |
| 34 | Datblygu Strategaeth Ddiwydiannol newydd ar gyfer Pren i Gymru | Mae swyddogion yn eu swyddi i arwain y gwaith ar y Strategaeth. Mae grant wedi'i ddyfarnu i Gyngor Powys ar gyfer Cartrefi o Bren Lleol cam 2, ac i CNC er mwyn datblygu dulliau amgen o werthu pren. Rydym yn sefydlu gweithgor i lywio'r strategaeth. |
| 35 | Gwaharddiad ar werthu mawn mewn compost | Ar 5 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gwerthu mawn o safbwynt garddwriaeth yn dod i ben yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus sy'n dangos bod 92% o ymatebwyr Cymru wedi cefnogi gwaharddiad cyffredinol ar werthu compost mawn. Cyhoeddodd Defra gynlluniau i wahardd gwerthu mawn i arddwyr amatur yn Lloegr erbyn 2024 er mwyn amddiffyn mawndiroedd a'r amgylchedd naturiol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Llywodraeth y DU ar y camau nesaf i weithredu'r gwaharddiad yng Nghymru. |
| 36 | Ymchwilio i gyfraniad posibl carbon glas tuag at gyflawni sero net | Mae Partneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas y DU bellach wedi'i sefydlu a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai 2022, gydag amcan allweddol i nodi'r anghenion o ran tystiolaeth a map gweithredu ar gyfer cynnwys morfeydd heli a morwellt (cynefinoedd carbon glas) yn Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr y DU. |
| 37 | Cynyddu systemau dal a defnyddio $CH_4$ ymhellach mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru erbyn 2030 | Mae CNC yn arwain y gwaith o asesu a chynllunio gwelliannau o ran dal ac adrodd ar fethan o safleoedd tirlenwi gweithredol a safleoedd tirlenwi sydd wedi cau (a gwmpesir gan y Gyfarwyddeb Tirlenwi). Mae llwybr i sicrhau sero net ar gyfer safleoedd tirlenwi yn cael ei ddatblygu erbyn mis Gorffennaf 2023. |
| 38 | Sefydliadau Llywodraeth y DU sydd â phresenoldeb sylweddol yng Nghymru i ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau sy'n dangos sut y byddant yn cefnogi | Nid oes gan Lywodraeth Cymru gysylltiad strategol â sefydliadau Llywodraeth y DU yng Nghymru nac unrhyw ysgogiadau uniongyrchol i ddylanwadu ar eu gweithredoedd.<br>Mae'r amcan ar gyfer Sector Cyhoeddus sero net yng Nghymru yn fwy uchelgeisiol nag un Llywodraeth y DU felly mae'n annhebygol y bydd y cynlluniau presennol yn cyd-fynd â'i gilydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | uchelgais Cymru i sicrhau sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 | |
| 39 | Holl eiddo'r sector cyhoeddus yn y dyfodol sy’n cael eu hadeiladu neu eu hadnewyddu'n sylweddol er mwyn cyrraedd safon sero net erbyn 2030 (Polisi) | Diweddariad ar y cyd (gan gynnwys Ysgolion ac ati), gan adrodd ar y polisi/prosesau sydd yn eu lle i gefnogi'r canlyniad hwn a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.<br>Mae cynlluniau GIG Cymru yn adlewyrchu'r ymrwymiad fel y nodir yn Cymru Sero Net.<br>Mae Cynllun Peilot Ystadau Cymru yn y gogledd yn mynd rhagddo. Bydd strategaeth ar gyfer a) ei ehangu ledled Cymru a b) datblygu atebion, yn dilyn. |